

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Casglu'r Dreth Gyngor

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau Diogelu GDPR a deddfwriaeth berthnasol.

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Diogelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Crëwyd :	25 Mai 2019
Adran a Chyfrifoldeb:	Gwasanaethau Corfforaethol
Rheolwr a Chyfrifoldeb:	Mike Parry
Cyfeiriad:	Cyngor Bwrdesitref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu eich data personol pan fyddwn yn gweinyddu'r cyfrifon a ddeler sy'n ymwneud â thrigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful at ddibenion y Dreth Gyngor.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn cadw a defnyddio gwybodaeth bersonol a gasglwn. Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol ein bod ni'n eich hysbysu chi o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Mae'n bosibl y byddwn yn diweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os wnawn ni hynny, byddwn yn sicrhau bod copi o'r hysbysiad hwn wedi ei ddiweddarau ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a'n hysbysiad preifatrwydd cyflawn, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ein prosesu data, y gellir cael gafael arnynt ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i sut mae'r Adran Refeniw a Budd-daliadau yn defnyddio eich data personol er mwyn mesur, casglu ac adennill y Dreth Gyngor ac Ardrethi Busnes, sy'n cynnwys sut mae'r adran yn casglu eich data personol er mwyn asesu a ydych yn gymwys am Ostyngiad y Dreth Gyngor. Byddwn ond yn casglu'r data personol sydd ei angen er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn i chi, a phrosesu eich data mewn ffordd deg a chyfreithlon.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys nifer o wahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Wrth gyfeirio at yr adran, rydym yn cyfeirio at yr Adran Refeniw a Budd-daliadau, sy'n gyfrifol am brosesu eich data ar gyfer y gwasanaethau a fanylir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i gleientiaid a chwsmeriaid yr Adran, sy'n cynnwys unigolion sy'n talu neu sy'n gyfrifol am dalu'r Dreth Gyngor o fewn y Fwrdeistref Sirol, a theuluoedd y rheiny sy'n

byw yn eiddo'r bobl hynny sy'n gyfrifol am dalu'r Dreth Gyngor.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data, a gellir cysylltu â'r swyddog yn defnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk

Rhif ffôn: 01685 725000

2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH CHI

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch er mwyn gweinyddu'r Dreth Gyngor fel a ganlyn:

- Manylion personol fel eich teitl, enw yn cynnwys eich enwau canol, olaf a blaenorol, enwau eraill fel ffugenwau neu alias', cyfeiriad, cyfeiriadau blaenorol, rhifau ffôn cyswllt, cyfeiriad e-bost, oedran, man geni, dyddiad geni,
- Rhifau adnabod gan gynnwys Rhifau Adnabod Iechyd, cyfeiriad IP, cyfeiriad MAC, rhifau ffôn, Rhifau Yswiriant Gwladol (NI), Rhifau Nawdd Cymdeithasol (SSN), rhifau'r gyflogres, rhif unigryw'r disgybl, rhifau PIN, rhifau cardiau debyd a chredyd, rhifau cyfeirnod busnes, rhifau pasport, rhifau trwydded yrru, rhifau cyfeirnod hawlio budd-daliadau.
- Os fyddwch yn dewis talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, neu os ydym wedi cael gorchymyn atebolrwydd gan y Llys, byddwn yn casglu rhywfaint o wybodaeth ariannol gennych chi hefyd. Gall hyn gynnwys cofnodion incwm, cofnodion benthyciadau, arferion gwario, cynilion a buddsoddiadau. Efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyflog, er enghraifft sut ydych chi'n cael eich talu, eich cyflog net a chyflog gros, a pha mor aml ydych chi'n cael eich talu.
- A ydych chi'n derbyn pensiwn galwedigaethol, a fydd yn cynnwys y swm rydych yn ei gael. Efallai y byddwn yn casglu data sy'n ymwneud â'ch hawliau budd-daliadau a fydd yn cynnwys p'un a ydych chi'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl, Taliadau Annibyniaeth Personol neu unrhyw grantiau ar gyfer cerbydau, Budd-dal Tai neu Ostyngiad yn y Dreth Gyngor. Gallai hyn gynnwys dyddiadau eich hawliadau diwethaf, unrhyw hawliadau blaenorol ac enw'r Awdurdod Lleol sy'n gwneud y taliadau hynny i chi. Efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth hefyd, sy'n ymwneud â'ch hanes incwm a'ch enillion yn y dyfodol.
- Manylion addysg, er enghraifft ydych chi mewn addysg ar hyn o bryd, a'r math o addysg rydych chi'n ei dderbyn (ysgol prif ffrwd, coleg, prifysgol).

- Gwybodaeth am gyflogaeth, sy'n cynnwys manylion eich cyflogwyr, pryd ddechreuoch chi eich cyflogaeth, sy'n cynnwys eich statws cyflogaeth fel p'un a ydych chi'n gyflogedig, hunangyflogedig, yn derbyn tâl salwch statudol, tâl mamolaeth statudol, tâl mabwysiadu, tâl swydd arbennig, tâl tadolaeth statudol neu unrhyw fath arall o daliad yn ystod eich cyflogaeth.
- Gwybodaeth am eich ffordd o fyw fel eich statws ariannol, statws priodasol, p'un a ydych chi neu aelod o'ch teulu agos yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar hyn o bryd, p'un a ydych chi'n ofalwr maeth cofrestredig, faint o blant sydd gennych chi, p'un a oes unrhyw rai o'ch plant yn annibynnol ac yn astudio i ffwrdd neu'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar hyn o bryd.

Mae yna gategoriâu arbennig o ddata personol mwy sensitif, sy'n gofyn am lefel uwch o ddiogelwch. Os byddwch yn gwneud cais am ddisgownt neu eithriad, neu os oes anghydfod ynghylch y rhwymedigaeth Treth Gyngor ar gyfer eich eiddo, efallai y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth ychwanegol megis:

- Ethnigrwydd a fydd yn cynnwys eich hil, lliw, tarddiad cenedlaethol neu ethnig, eich statws mewnfudo, gan gynnwys y dyddiad y gwnaethoch chi ddod i mewn i'r DU.
- Data iechyd sy'n ymwneud â'ch iechyd corfforol neu feddyliol, anabledau, hanes iechyd teulu neu unigolyn, p'un a ydych chi wedi cael eich derbyn i'r ysbyty a hyd eich arhosiad. Byddwn hefyd yn casglu data hefyd sy'n ymwneud a ph'un a oes gennych chi, neu os ydych chi yn ofalwr cofrestredig a'r math o ofal rydych yn ei dderbyn.
- Efallai y byddwn yn cadw manylion yn ymwneud â data troseddol hefyd, fel p'un a ydych chi yn y carchar neu ar brawf.

Rydym yn esbonio'r dulliau gwahanol a ddefnyddir i gasglu'r data hyn amdanoch yn adran 3 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

3. SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Rydym yn casglu gwybodaeth oddi wrthydych pan fyddwch yn llenwi un o'n ffurflenni, neu'n cysylltu â ni am eich eiddo, naill ai'n ysgrifenedig, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn ein canolfan gyswllt cwsmeriaid.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch hefyd gan drydydd partion (gan gynnwys perchenogion blaenorol, landlordiaid a gwerthwyr tai) os oes angen gwneud hyn er mwyn gweinyddu a gorfodi'r drefn o gasglu'r Dreth Gyngor. Rydym yn cael adroddiadau credyd gan Experian er mwyn olrhain ac asesu'r dull gorau o adennill y Dreth Gyngor. Mae'r data hyn yn cael eu storio yn Information@Work, sef system electronig y Cyngor. Mae'r data hyn yn sicrhau bod disgowntiau ac eithriadau yn cael eu rhoi yn gywir hefyd.

Rydym yn defnyddio System Refeniw a Budd-daliadau Northgate, sy'n system letyol ddiogel ar gyfer rheoli gwybodaeth electronig ar-lein, i weinyddu cofnodion cyfrifon y Dreth Gyngor ac Ardrethi Busnes.

Dim ond pan fydd deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu hynny y byddwn yn defnyddio eich data personol. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau a osodwyd allan o dan Reoliadau GDPR a ble y bo'n berthnasol, Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth personol o dan yr amgylchiadau canlynol:

Pan fydd angen i ni gydymffurfio â'n goblygiadau cyfreithiol:

Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth personol er mwyn gweinyddu a gorfodi'r Dreth Gyngor o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd yn y Ddeddf hon. Rydym yn prosesu eich data personol hefyd er mwyn cynhyrchu eich Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor flynyddol, cais am ad-daliad, a llythyrau cadarnhau Debyd Uniongyrchol, yn unol â Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992.

Yn unol â Deddf Ystadegau a Rheoleiddio 2007, rydym yn rhoi data i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol at ddibenion dadansoddol.

Yn unol â Deddf Economi Ddigidol 2017, byddwn yn rhoi eich data i adrannau mewnol er mwyn symleiddio'r gwasanaethau a ddarperir i chi.

I gydymffurfio â'n swyddogaethau statudol:

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill y Cyngor hefyd, er mwyn sicrhau bod ein cofnodion yn gywir a chyfredol, i wella safon y gwasanaethau a ddarparwn, ac i gyflawni unrhyw rai o'n dyletswyddau statudol, gan gynnwys dyletswyddau gorfodi.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddwn, ac efallai y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer atal a chanfod troseddau (gan gynnwys twyll a gwyngalchu arian), ac ar gyfer paru data'r Dreth Gyngor â chofnodion Cofrestru Etholwyr.

Mae'n bosibl y byddwn yn prosesu eich data personol hefyd, pan fo'n angenrheidiol mewn perthynas â'n buddion cyfreithlon (neu rai trydydd parti), ac nad yw eich buddion chi na'ch hawliau sylfaenol yn gwrthwneud y buddion hynny.

4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL

Gallwn rannu eich data personol ar draws y Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn eich darparu chi â'r gefnogaeth sy'n ofynnol arnoch, byddwn yn rhannu eich data yn fewnol ar draws Adrannau eraill y Cyngor hefyd.

Os bydd arnoch arian i ni, byddwn bob amser yn ceisio cysylltu â chi yn gyntaf i wneud trefniant anffurfiol i ad-dalu unrhyw ddyled. Fodd bynnag, pan fydd hyn yn aflwyddiannus, neu os oes gennych hanes o daliadau hwyr, mae'n bosibl y byddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth i'n Hasiantau Gorfodi neu i'n Hadran Gyfreithiol fewnol i adennill unrhyw arian sy'n ddyledus. Efallai y byddwn yn rhannu eich data gydag adrannau eraill hefyd, er mwyn ymateb i gwynion neu helpu i

gyflawni ein swyddogaethau statudol eraill.

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i ni rannu eich gwybodaeth hefyd (lle bo'n briodol) gydag Awdurdodau Bilio eraill, y Llysoedd, y Swyddfa Briso a'r Gwasanaeth Tribiwnlys Priso, Cyflogwyr a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Rydym yn cymryd rhan ym Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa'r Cabinet, sef ymarfer paru data i helpu i atal a chanfod twyll. Mae'n ofynnol i ni ddarparu setiau penodol o ddata i Weinidog Swyddfa'r Cabinet ar gyfer paru ar gyfer pob ymarfer. Yna, gall y data hwnnw gael ei drosglwyddo i gyrff cyhoeddus eraill er mwyn archwilio unrhyw baru. Am ragor o wybodaeth am y Fenter Twyll Genedlaethol darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd y Fenter Twyll Genedlaethol. –

Byddwn yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau allanol er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau statudol fel:

Yr Heddlu, er mwyn eu cynorthwyo gyda'r gwaith o arestio troseddwy
Llywodraeth Cymru er mwyn eu cynorthwyo gyda'u hymholiadau
Ysgolion er mwyn sicrhau bod eu cofnodion yn gywir
Rheoleiddwyr Awdurdodau Lleol fel yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Gwybodaeth, y Comisiynydd Pobl Hŷn ac ati.

Cyngor Gofal Cymru

UK Visas and Immigration, i'w cynorthwyo i ddal mewnfudwyr anghyfreithlon

Efallai y bydd cyrff eraill y Llywodraeth sydd angen mynediad at eich gwybodaeth bersonol at ddibenion swyddogol. Yn yr achos hwn, bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wlad y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn eich hysbysu o hynny cyn gynted â phosibl a gallwch ddisgwyl graddfa debyg o ddiogelu o ran eich gwybodaeth bersonol.

5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Dim ond am mor hir ag sy'n angenrheidiol y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol ac er mwyn cyflawni'r dibenion y cafodd ei chasglu ar ei gyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu adrodd yn ôl. Caiff yr wybodaeth bersonol a gasglwyd yn unol â'r prosesu a fanylir yn yr hysbysiad hwn ei gadw cyhyd ag y bydd ei hangen arnom ni neu gan gyrff rheoleiddio eraill er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol neu am resymau gweithredol eraill.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

6. SUT FYDDWN NI'N CADW EICH GWYBODAETH YN DDIOGEL

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch priodol i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll neu gael ei defnyddio neu fod mynediad ati mewn modd heb ei awdurdodi, neu ei haddasu neu ddatgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogion hynny sydd â'r busnes i wybod. Dim ond yn dilyn ein cyfarwyddyd ni y byddant yn

prosesu eich gwybodaeth bersonol, ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio ag unrhyw dorcyfraith o ran diogelwch data, a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys am amheuaeth o dorcyfraith pan fo'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

7. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan amgylchiadau penodol, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol, gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei gadw amdanoch chi. Caiff manylion am yr hawliau hyn eu canfod yn yr hysbysiad preifatrwydd cyflawn. Mae gennych yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac i awdurdod goruchwyllo'r DU am unrhyw faterion diogelu data hefyd:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2^{il} Lawr, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 0330 414 6421

8. MANYLION PELLACH

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data personol gan gynnwys diogelu data, cadw data, hawliau unigolion, edrychwch ar ein polisi preifatrwydd cyflawn. Gallwch gael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd, www.ico.org.uk.